## COD YMDDYGIAD I GRWPIAU MYFYRWYR UNDEB ABERYSTWYTH

**1. Beth yw'r Cod Ymddygiad i Grwpiau Myfyrwyr?**

1.1. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu safonau'r ymddygiad a ddisgwylir gan bob grŵp myfyrwyr sy'n gysylltiedig ag Undeb y Myfyrwyr. Ei bwriad yw darparu enghreifftiau a helpu aelodau grŵp myfyrwyr i ddeall sut y gallant gyfrannu at amgylchedd cadarnhaol a chynhwysol o fewn eu clwb neu eu cymdeithas ac yn y Brifysgol yn gyffredinol.

1.2. Diben y ddogfen hon yw cyd-fynd â Chod Ymddygiad i Aelodau Undeb Aberystwyth (sy'n nodi safonau ymddygiad i bob aelod). Mae unrhyw fyfyriwr yn y Brifysgol yn rhwym i reolau a rheoliadau myfyrwyr y Brifysgol, yn ogystal â'r gyfraith.

**2. Diben Cod Ymddygiad i Grwpiau Myfyrwyr**

2.1. Mae Undeb Aberystwyth wedi ymrwymo i sicrhau bod ein grwpiau myfyrwyr a'n gweithgareddau yn hwyliog, cynhwysol ac yn ddiogel. Mae miloedd o fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn grwpiau myfyrwyr ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein gweithgareddau yn digwydd mewn ffordd sy'n parchu'r Brifysgol a'r gymuned leol.

**3. Swyddi a Chyfrifoldebau**

Ceir sawl swydd allweddol yn y polisi hwn:

3.1. Ymddiriedolwr Goruchwylio – wedi'i benodi gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i oruchwylio fframwaith a dull y Cod Ymddygiad, i wneud penderfyniadau ynghylch a ddaw cwynion / honiadau o dan gwmaps y polisi hwn ac i roi sêl bendith i unrhyw gamau rhagofalus.

3.2. Y Rheini sy'n Adrodd(neu'r Achwynydd) – yr unigolyn neu'r bobl sy'n cyflwyno cwyn / honiadau.

3.3. Swyddog Cwynion – rheoli cwynion a gwaith achosion, gwneud yr asesiad risg cyntaf, cynnal paneli asesu risgiau, penodi Swyddogion Ymchwilio a gwneud penderfyniadau ar sail a ddylai achosion fynd ymlaen i banel disgyblu ai pheidio.

3.4. Swyddog Ymchwilio – cynnal ymchwiliadau a chynhyrchu adroddiad ymchwiliadau ac argymhellion. Gallai fod yn aelod o staff Undeb y Myfyrwyr, cydweithiwr o'r Brifysgol neu rywun annibynnol gan ddibynnu ar risg a chymhlethdod yr achos.

3.5. Pwyllgor Asesu Risg – pwyllgor o dri pherson a benodir i wneud asesiad risg o achosion difrifol ac i wneud penderfyniad am unrhyw gamau rhagofalus priodol.

3.6. Pwyllgor Disgyblu – pwyllgor o dri pherson a benodir i wneud unrhyw benderfyniad(au) disgyblu a phenderfynu cosbau priodol.

**4.** Cwmpas – i bwy mae'r Cod yn berthnasol ac ym mha sefyllfaoedd?

Mae Cod Ymddygiad Grŵp Myfyrwyr yn cynnwys:

4.1. Aelodau grwpiau myfyrwyr;

4.2. Arweinwyr grwpiau myfyrwyr;

4.3. Pobl sy'n gweithio gyda grwpiau myfyrwyr, neu yn gysylltiedig â hwy hy hyfforddiant, athrawon ayyb;

4.4. Gwylwyr / cefnogwyr grwpiau myfyrwyr.

4.5. Mae'r Cod Ymddygiad i Grwpiau Myfyrwyr yn ymwneud ag ymddygiad, cwynion neu faterion sy'n gysylltiedig yn benodol â gweithgarwch grŵp myfyrwyr. Boed:
   4.5.1. Ar y campws a'r tu hwnt;
   4.5.2. Fel rhan o weithgaredd grŵp myfyrwyr ffurfiol, cymdeithasol neu unrhyw beth y gellir ei ystyried yn gysylltiedig â grŵp;
   4.5.3. Wrth i aelod gynrychioli, gweithredu ar ei ran neu y gellid ei ystyried yn cynrychioli / gweithredu ar ran eu grŵp myfyrwyr.

4.6. Mae grwpiau myfyrwyr yn parhau i fod yn gyfrifol am eu gweithredoedd a'u hymddygiad bob amser, gan gynnwys cyn, yn ystod, ac ar ôl gweithgareddau a drefnir os gellid ystyried bod gweithredoedd neu ymddygiad yn gysylltiedig a'r weithgaredd. Nid yw'r amser gorffen a nodir ar gyfer digwyddiad cymdeithasol neu ddigwyddiad yn golygu diwedd ar y cyfrifoldeb hwn. Mae canfyddiad yn bwysig; gall y modd y mae'r grŵp a'i aelodau yn ymddwyn, hyd yn oed y tu allan i'r amserlen ffurfiol, adlewyrchu ar y grŵp, Undeb y Myfyrwyr, a chymuned ehangach y myfyrwyr.
4.7. Ceir Cod Ymddygiad i Aelodau ar wahân sydd â ffocws ar ymddygiad unigolion.
4.8. Os ceir cwyn ynghylch ymddygiad grŵp myfyrwyr, mae'n bosibl bod y Cod i Grwpiau Myfyrwyr hwn yn berthnasol i'r grŵp cyfan a bod y Cod Ymddygiad i Aelodau yn berthnasol i unigolion sydd wedi torri ein safonau ymddygiad derbyniol.

## 5. Disgwyliadau a Safonau Ymddygiad i Grwpiau Myfyrwyr

Fel grŵp myfyrwyr cysylltiedig, disgwylir i chi:

5.1. Sicrhau fod aelodau yn ymddwyn yn unol â Chod Ymddygiad i Aelodau Undeb Aberystwyth (ac annog hyn yn weithredol)
5.2. Cydymffurfio â pholisïau ac is-ddeddfau Undeb Aberystwyth - gweithredu yn unol â'r rheolau cyhoeddedig sy'n perthyn i grwpiau myfyrwyr;
5.3. Cydymffurfio â gwerthoedd Undeb Aberystwyth;
5.4. Ufuddhau â holl bolisïau, rheolau ac ymarfer da Undeb Aberystwyth, gan gynnwys y rheini ynghylch diogelu data, iechyd, a diogelwch, cyllid a chydraddoldeb ac amrywioldeb.
5.5. Cymryd camau rhesymol i sicrhau diogelwch aelodau'r grŵp, y gwylwyr a phawb arall sy'n rhan o'ch gweithgaredd. Dylid cynnal a dilyn asesiadau risg grŵp. Dylid rhoi cyfarwyddiadau diogelwch priodol a'u dilyn.
5.6. Peidiwch â chynnal unrhyw weithred a allai beryglu enw da'r grŵp myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr, y Brifysgol neu bartneriaid / noddwyr allanol.
5.7. Gweithredu yn unol â'r rheolau, gan gynnwys canllawiau cenedlaethol, sy'n llywodraethu eich gweithgarwch.
5.8. Datgelu unrhyw beth i aelod staff Undeb Aberystwyth a allai achosi (neu sydd wedi achosi) niwed i bobl neu i eiddo, o fewn amser rhesymol.
5.9. Peidio â chamddefnyddio neu wneud niwed yn fwriadol i adnoddau, offer a/neu fannau grwpiau myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr neu'r Brifysgol.
5.10. Sicrhau fod digwyddiadau cymdeithasol (ac unrhyw weithgaredd gysylltiedig) yn ôl dewis aelodau yn unig ac nad ydynt yn effeithio ar allu eraill i fod yn aelod o'r grŵp myfyrwyr neu i ddal swydd ar bwyllgor.
5.11. Sicrhau nad yw aelodau'n cael eu gorfodi na dan bwysau i gymryd unrhyw gamau a fydd yn gwneud iddynt deimlo'n anesmwyth.
5.12. Sicrhau fod aelodau yn ymwybodol o sut y gallai eu gweithredoedd gael eu gweld gan eraill.

5.13. Parchu cymuned y Brifysgol, y cymuned leol a thimau / grwpiau sefydliadau eraill, gan gynnwys sicrhau fod aelodau yn ymddwyn mewn modd rhesymol o ran iaith, sŵn ac ymddygiad.
5.14. Peidio â chynnal seremonïau neu weithgareddau dechrau (gweler Adran 6).
5.15. Sicrhau nad yw aelodau'n cael eu hannog i feddwi'n ddiangen mewn unrhyw ddigwyddiad neu weithgaredd lle gellid ystyried eu hymddygiad yn annerbyniol neu'n amhroffesiynol.
5.16. Peidio â defnyddio alcohol tra'n cael eich cludo i neu o unrhyw weithgaredd a drefnir yn enw grŵp myfyrwyr, Undeb Aberystwyth neu'r Brifysgol.
5.17. Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau fod eich gweithgareddau, a phob agwedd ar eich grŵp, yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob aelod o Undeb y Myfyrwyr.
5.18. Sicrhau fod digwyddiadau â siaradwyr allanol / gwadd yn cael eu cymeradwyo trwy broses Siaradwr Allanol Undeb Aberystwyth.
5.19. Peidio â rhoi unrhyw addysg neu gyngor crefyddol (yn benodol ar gyfer grwpiau crefyddol / grwpiau ffydd).
5.20. Sicrhau fod gwariant cronfa yn foesegol, priodol ac o fudd i'r aelodau neu'n unol â nodau'r grwpiau myfyrwyr.
5.21. Dylid defnyddio y Cod Ymddygiad i Grwpiau Myfyrwyr hwn a Chod Ymddygiad i Aelodau Undeb Aberystwyth hyn at osod ac at reoli disgwyliadau ymddygiad. Ni ddylai grwpiau myfyrwyr greu eu Codau Ymddygiad neu eu gweithdrefnau disgyblu eu hunain ac mae modd iddynt drafod unrhyw bryderon gyda staff yr Undeb ynglŷn â sut caiff ymddygiad ei reoli mewn gweithgareddau grŵp.
5.22. Ysgwyddo cyfrifoldeb am eich dealltwriaeth eich hun o'r Cod Ymddygiad i Grwpiau Myfyrwyr hwn a chanlyniadau unrhyw dorri - gan geisio rhagor o wybodaeth neu gyfarwyddyd os ydych yn ansicr o ran sut y dylid ei weithredu.
5.23. Ni fyddwn yn derbyn na goddef iaith, ymddygiadau, polisïau a/neu strwythurau sy'n ffurfio bwlio ac aflonyddu, aflonyddu rhywiol, trais rhywiol, hiliaeth, rhywiaeth, Islamaffobia, gwrth-semitiaeth, homoffobia, bifoffobia, trawsffobia, anableddiaeth, oedraniaeth neu unrhyw ffurf arall ar wahaniaethu.

## 6. Seremonïau a Gweithgareddau Cychwyn

6.1. Yn unol â'r rhan fwyaf o brifysgolion, ac o ganlyniad i nifer o ddigwyddiadau difrifol iawn mewn sefydliadau eraill, nid yw Undeb Aberystwyth na Phrifysgol Aberystwyth yn caniatáu 'seremonïau cychwyn' neu weithgareddau tebyg.
6.2. At y diben hwn, diffinnir seremonïau neu weithgareddau cychwyn yn unrhyw ddigwyddiad lle y bydd disgwyl i aelodau grŵp gyflawni gweithgaredd fel dull o ennill hygrededd, statws neu i ddod yn rhan o'r grŵp hwnnw. Fel arfer, ar fyfyrwyr blwyddyn gyntaf neu aelodau newydd y mae'r pwysau hyn gan gyd-fyfyrwyr (er nid yn amlwg) a gallai hyn gynnwys yfed alcohol, bwyta amryw o bethau, dinoethi ac ymddygiad y gellid ei ystyried sy'n llawn cywilydd neu yn anniogel.
6.3. Yn y gorffennol, mae myfyrwyr yn Aberystwyth ac mewn sefydliadau eraill wedi achosi niwed troseddol, wedi cael eu hanafu'n ddifrifol ac, mewn o leiaf dau achos mewn sefydliadau eraill, wedi marw oherwydd iddynt gymryd rhan mewn seremonïau cychwyn. Yn ogystal â hyn, mae seremonïau cychwyn yn frawychus, yn codi cywilydd a gallant fod cystal â bwlio. Nid ydynt yn annog y grwpiau myfyrwyr croesawus a chynhwysol y mae Undeb Aberystwyth eu heisiau.
6.4. Anogir gweithgareddau cymdeithasol fel nosweithiau croesawu, prydau tîm, nosweithiau cymdeithasol, teithiau a dathliadau sy'n croesawu aelodau newydd ac yn cynnig argraff gadarnhaol gyntaf o fywyd prifysgol. Mae'n rhaid dilyn y rheolau isod:

6.5. Mae'n rhaid fod pob gweithgaredd yn opsiynol ac na chaiff ddylanwad ar eu derbyn i'r grŵp/tîm myfyrwyr / sgwad ac ati;
6.6. Ni chaniateir rhoi pwysau ar unigolion;
6.7. Ni ddylai gweithgareddau godi cywilydd, torri'r gyfraith na diraddio;
6.8. Ni ddylai gweithgareddau gynnwys gorfodi unrhyw un i fwyta neu yfed unrhyw hylifau / sylweddau;
6.9. Ni ddylid cael mynychu gweithgaredd / digwyddiad fod yn amodol ar yfed alcohol;
6.10. Os yw gweithgareddau yn cynnwys alcohol, rhaid sicrhau fod diodydd di-alcohol ar gael;
6.11. Ni ddylai gweithgareddau beryglu enw da Undeb Aberystwyth, Prifysgol Aberystwyth neu'r grŵp myfyrwyr, nac achosi iddynt golli eu henw da.
6.12. Gall trefnydd y digwyddiad, Cadeiryddion / Capteiniaid Clwb neu Gymdeithas unigol, pwyllgorau a/neu'r grwpiau ar y cyfan gael eu dal yn gyfrifol am 'seremoni gychwyn' neu weithgaredd ac efallai y byddant yn wynebu camau disgyblu Undeb y Myfyrwyr neu'r Brifysgol (gan gynnwys (gan gynnwys gwahardd neu ddiarddel).

**7. Bwlio ac Aflonyddu**

7.1. Yn Undeb Aberystwyth, rydym yn disgwyl i bob aelod o'n cymuned drin ei gilydd gyda pharch, urddas, cwrteisi ac ystyriaeth. Ceir ein diffiniad o fwlio ac aflonyddu yn Nghod Ymddygiad i Aelodau Undeb Aberystwyth ac mae disgwyl i grwpiau myfyrwyr hybu a meithrin diwylliant ac amgylchedd heb ofn bwlio ac aflonyddu. Os oes gan aelodau neu arweinwyr grŵp bryder ynghylch bwlio neu aflonyddu, dylid rhannu hyn gydag aelod staff yn yr Undeb.

**8.** Cam-drin Rhywiol, Trais Rhywiol ac Aflonyddu Rhywiol

8.1. Mae Camymddwyn Rhywiol yn cwmpasu ystod eang o ymddygiadau amhriodol a digroeso neu ymgeisiadau i ymddygiad digroeso o natur rywiol. Mae'n cynnwys pob math o drais rhywiol, gan gynnwys rhyw heb gydsyniad, cam-drin rhywiol (gan gynnwys cam-drin ar-lein a cham-drin gyda delweddau), cyffwrdd rhywiol heb gydsyniad, aflonyddu rhywiol, ystelcian neu sylwadau sarhaus neu ddiraddiol o natur rywiol.
8.2. Gall grwpiau myfyrwyr ddarparu amgylchedd rhagorol i ddangos ymddygiad cynhwysol, cadarnhaol, parchus i eraill. Mae hefyd modd iddynt feithrin agweddau ac ymddygiad tocsig, rhywiaethol, gwreig-gasol, rheibus, a difrïol Mae'r Undeb yn disgwyl i grwpiau myfyrwyr fabwysiadu agwedd o beidio â goddef aflonyddu a chamymddwyn rhywiol. Dylai aelodau herio iaith ac ymddygiad anweddus neu godi pryderon gyda'r Undeb lle nad oes modd neu angen.

**9. Rhyddid Barn**

9.1. Er mwyn bod yn gymuned ddysgu fywiog, credwn fod yn rhaid sicrhau awyrgylch trafod rhydd ac agored ar gyfer myfyrwyr ac rydym yn annog hyn yn gryf. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i wybodaeth neu syniadau sy'n cael eu derbyn yn ffafriol ac nad ydynt yn ddadleuol, ond hefyd i'r rhai sydd â'r potensial i sarhau, syfrdanu neu siomi'r gwrandäwr.
9.2. Mae goddefgarwch a meddwl agored yn hanfodol i awyrgylch dysgu cynhwysol, a dylai pob safbwynt, gan gynnwys y rheiny sy'n hollti barn, gael ei fynegi a'i glywed gyda goddefgarwch a pharch at y naill ochr i'r llall.
9.3. Nid oes angen i Undeb y Myfyrwyr ganiatáu i'r rheini nad ydynt yn fyfyrwyr ddefnyddio ein cyfleusterau neu gymryd rhan mewn gweithgareddau. Fodd bynnag, byddwn yn cefnogi myfyrwyr os byddant yn dymuno cynnal gweithgareddau neu ddigwyddiadau hyd yn oed

os yn ddadleuol, cyhyd ag y'u ystyrir yn ddiogel, yn gyfreithlon a'u bod yn cydymffurfio â'n polisïau, ein gweithdrefnau a'n rheolau arferol.

9.4. Disgwylir i grwpiau myfyrwyr annog a galluogi rhyddid barn mewn modd cyfreithiol ac i ddilyn proses Siaradwr Allanol Undeb y Myfyrwyr.

## 10. Cwynion neu Bryderon

10.1. Gellir cofnodi achos a dechrau ymchwiliad os bydd pryderon yn codi ynglŷn ag ymddygiad, arferion neu ddiwylliant sy'n gysylltiedig â grŵp myfyrwyr. Gellir cychwyn hyn gan:

10.1.1. Cwyn ffurfiol trwy broses gwynion yr Undeb; neu
10.1.2. Pryderon neu faterion sy'n dod i sylw Undeb Myfyrwyr mewn unrhyw ffordd arall.

10.2. Unwaith y bydd cwyn neu bryder wedi'i gofnodi, a bod modd ymchwilio iddo o dan y polisi, caiff Swyddog Ymchwilio ei benodi i oruchwylio'r achos. Fel arfer, aelod priodol o'r tîm Cyfleoedd i Fyfyrwyr neu'n aelod o Dîm Arweinyddiaeth yr Undeb fydd y rhain. Mewn achosion difrifol posib, gellir penodi parti allanol neu gydweithiwr o'r Brifysgol yn Swyddog Ymchwilio.

## 11. Camau Rhagofalus

11.1. Mewn sefyllfa lle mae pryderon difrifol yn dod i'r amlwg ynghylch ymddygiad grŵp myfyrwyr, cynhelir asesiad risg a rhoddir ystyriaeth i a oes angen mesurau rhagofalus tra bod ymchwiliad yn cael ei gynnal. Gallai camau rhagofalus gynnwys cyfyngu'r grŵp rhag cynnal gweithgareddau dros dro. Gallai hyn fod mewn sefyllfaoedd lle, er enghraifft:

11.1.1. Mae peryg i iechyd a diogelwch aelodau;
11.1.2. Mae pryderon ynghylch diwylliant y grŵp hynny yw bwlio ac aflonyddu;
11.1.3. Mae honiadau o ymddygiad rhywiol amhriodol, difrïol neu reibus sydd ynghlwm â diwylliant y grŵp (nid ag aelod unigol yn unig);
11.1.4. Gallai caniatáu i weithgareddau grŵp barhau rwystro ymchwiliad, er enghraifft camddefnyddio arian grŵp myfyrwyr.

11.2. Nid sancsiwn na chosb yw camau rhagofalus. Ni chaiff eu gweithredu oni bai fod asesiad risg yn gweld angen atal niwed neu leihau risg.

11.3. Cynhelir asesiadau risg (gan gynnwys penderfyniadau ynghylch camau rhagofalus) gan banel bach a gaiff ei ddethol o'r canlynol: Tîm Arweinyddiaeth Undeb y Myfyrwyr, y Swyddog Cwynion, Swyddogion Llawn Amser yr Undeb ac aelodau y Tîm Cyfleoedd i Fyfyrwyr. Bydd pob aelod posibl o'r panel yn cael hyfforddiant llawn yn y Cod Ymddygiad, y Polisi Disgyblu a methodoleg Asesiadau Risg. Fel arfer bydd paneli asesu risg yn cynnwys 3 o bobl o'r gronfa ac fel rheol byddant bob amser yn cynnwys naill ai'r Swyddog Cwynion neu aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth.

11.4. Bydd unrhyw benderfyniad i gyfyngu ar grŵp myfyrwyr rhag cynnal ei weithgareddau dros dro yn cael ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolwr sy'n Goruchwylio

## 12. Penderfyniad Anffurfiol

12.1. Cyn ystyried ymchwiliad ffurfiol a chamau disgyblu, bydd y Swyddog Cwynion a'r Swyddog Ymchwilio yn penderfynu a oes modd datrys y mater yn anffurfiol ac a fyddai'n briodol.

12.2. Gallai hyn gynnwys trafod y mater gyda phwyllgor y grŵp myfyrwyr gyda'r nod o'i helpu i gymryd y camau priodol i wella ei ymddygiad. Ar y cam hwn rhoddir ar ddeall yn glir i bwyllgor y grŵp am y disgwyliadau, pa gamau sydd angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater a phryd y caiff hyn ei adolygu. Efallai y caiff hyfforddiant neu hyfforddi pellach eu hargymell hefyd.

12.3. Ni wneir penderfyniad anffurfiol os :

12.3.1. Nad yw ymddygiad y grŵp wedi gwella yn dilyn trafodaeth neu rybudd anffurfiol cynt;

12.3.2. Mae'n fwy priodol delio â'r sefyllfa'n ffurfiol, oherwydd difrifoldeb neu risg bosibl y mater.

12.4. Weithiau na fydd modd datrys materion trwy sgwrs anffurfiol na chwaith yn briodol. Yn yr achos hwn, caiff y gweithdrefnau perthnasol a amlinellir yn weddill y polisi hwn eu gweithredu.

## 13. Ymchwiliad

13.1. Cynhelir unrhyw ymchwiliad o dan y Cod Ymddygiad i Grwpiau Myfyrwyr cyn gynted ag y bo modd ac fel arfer cyn pen 30 diwrnod calendr o ddechrau'r ymchwiliad.

13.2. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn cysylltu ag aelodau pwyllgor perthnasol y grŵp myfyrwyr i amlinellu'r pryderon / honiadau ac i ddarparu crynodeb o natur yr honiadau.

13.3. Mae gan y Swyddog Ymchwilio y gallu i gynnal yr ymchwiliad fel yr ystyrir yn briodol ganddo, gan gynnwys cyfweld â'r parti riportio a thystion a chasglu unrhyw dystiolaeth a geir.

13.4. Pan fydd y Swyddog Ymchwilio yn sicr y cafwyd hyd i dystiolaeth ddigonol, bydd yn paratoi adroddiad a geir ynddo yr holl dystiolaeth a chrynhoi'r ffeithiau ac unrhyw gamymddwyn posib - gan gynnig ei farn ynglŷn ag a oes achos i'w ateb ai pheidio.

13.5. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn rhannu ei adroddiad gyda'r Swyddog Cwynion iddo gael ei ystyried.

## 14. Ystyriaeth gan y Swyddog Cwynion

Bydd y Swyddog Cwynion yn adolygu Adroddiad yr Ymchwiliad a baratowyd gan y Swyddog Ymchwilio ac efallai y bydd yn

14.1. Gofyn i ymchwiliad pellach gael ei gynnal;

14.2. Penderfynu na ddylid cymryd camau pellach;

14.3. Gofyn am gymryd camau anffurfiol gan gynnwys trafodaeth anffurfiol, rhybudd, hyfforddiant, cyfarwyddyd, cyfryngu, a/neu ofyn am ymddiheuriad;

14.4. Penderfynu y dylid delio â'r mater yn ffurfiol.

14.5. Gall y Swyddog Cwynion gael ei gynghori gan y Prif Weithredwr, cydweithwyr o'r Gwasanaethau Myfyrwyr a/neu gan gynghorwyr cyfreithiol / adnoddau dynol allanol.

## 15. Panel / Cyfarfod Disgyblu

15.1. Os bydd y Swyddog Cwynion yn penderfynu cyfeirio'r mater at Banel Disgyblu, bydd yn cynnull panel ac yn trefnu cyfarfod cyn gynted ag y bo modd.
15.2. Bydd y Panel yn cynnwys tri o bobl na fu'n rhan o'r achos cyn hynny a chaiff ei ddethol o gronfa sy'n cynnwys: Tîm Arweinyddiaeth Undeb y Myfyrwyr, ac Aelodau Llawn Amser yr Undeb. Bydd pob aelod panel posibl yn cael hyfforddiant llawn yn y Cod Ymddygiad, y Polisi Disgyblu a methodoleg Asesiadau Risg. Caiff un o'r aelodau ei benodi yn Gadeirydd y Panel
15.3. Bydd trefn y cyfarfod disgyblu, y dystiolaeth i'w hystyried a'r tystion i'w galw yn ôl dewis y Panel. Gall y Panel ofyn cwestiynau i unrhyw un sy'n bresennol
15.4. Fel arfer, bydd aelod o'r tîm Pobl / Llywodraethu yn gweithredu fel Clerc i'r Panel Disgyblu Rôl y clerc yw cynorthwyo'r Panel, cymryd cofnodion o'r cyfarfod a chynghori'r Panel Fel arfer, bydd y Swyddog Ymchwilio yn cyflwyno'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod ei ymchwiliad.
15.5. Caiff pwyllgor y grŵp myfyrwyr ei wahodd i fynychu'r cyfarfod Mae modd i'r gwrandawiad gael ei gynnal yn rhithiol ac nid wyneb yn wyneb. Gall y Panel wahodd tystion i roi tystiolaeth i'r gwrandawiad os bydd yn teimlo ei fod yn briodol ac o fudd.
15.6. Bydd y Panel yn dibynnu'n unig ar y dystiolaeth a gyflwynir yn y cyfarfod, naill ai ar lafar neu yn y pecyn tystiolaeth. Bydd aelodau'r pwyllgor sy'n bresennol yn derbyn copi o'r pecyn tystiolaeth ac yn cael gwahoddiad i ymateb i'r honiadau ynghylch ymddygiad y grŵp myfyrwyr.
15.7. Gall y Panel ddyfarnu grŵp myfyrwyr yn euog o gamymddwyn os ydy, yn ôl pob tebyg, yn sicr ei fod yn euog. Ar ôl sefydlu dyfarniad o euogrwydd, gall y Panel osod unrhyw un o'r cosbau a restrir yn Atodiad 1 gan ddefnyddio'r canllawiau a ddarperir
15.8. Os na all aelodau'r Panel gytuno, bydd penderfyniad y Panel yn seiliedig ar fwyafrif ei aelodau.
15.9. Fel arfer, rhoddir gwybod i bwyllgor y grŵp myfyrwyr ac aelodaeth y grŵp am y penderfyniad a'r sancsiynau a orfodir cyn pen 14 diwrnod calendr wedi'r gwrandawiad. Mae gan y grŵp myfyrwyr yr hawl i apelio, fel yr amlinellir yn Adran 16.
15.10. Caiff y parti sy'n adrodd / yr achwynydd lythyr canlyniadau oddi wrth y Swyddog Ymchwilio. Bydd hwn yn grynodeb o'r ymateb ac o unrhyw gamau a gymerwyd.

## 16. Apeliadau

16.1. Mae'n rhaid i grŵp myfyrwyr gyflwyno apêl yn erbyn ei gael yn euog neu yn erbyn sancsiwn a orfodwyd. Mae'n rhaid cyflwyno'r apêl i Undeb y Myfyrwyr cyn pen 7 niwrnod calendr ers i lythyr y canlyniad gael ei anfon. Mae'n rhaid i'r ymatebwr fanylu ar y seiliau dros wneud yr apêl.
16.2. Caiff yr apêl ei chlywed gan aelod o Dîm Rheoli Uwch Undeb y Myfyrwyr.
16.3. Seiliau posibl yr apêl yw:

16.3.1. Nad oedd y penderfyniad yn rhesymol;
16.3.2. Na chafodd y gweithdrefnau eu dilyn yn iawn wrth wneud y penderfyniad;
16.3.3. Bod tystiolaeth newydd wedi dod i'r amlwg nad oedd ar gael i'r penderfynwr gwreiddiol a allai fod wedi cael effaith sylweddol ar y penderfyniad.

16.4. Nad oes hawl i'r achos gael ail wrandawiad. Caiff aelodau pwyllgor y grŵp myfyrwyr gyflwyno yr apêl wyneb yn wyneb neu yn ysgrifenedig.
16.5. Gall yr Arweinydd Uwch sy'n ystyried yr apêl:

16.5.1. Gwrthod yr apêl a chadarnhau y cosb gwreiddiol;

16.5.2. Cynnal yr apêl a thynnu'r penderfyniad a'r cosb gwreiddiol yn ôl;
16.5.3. Cynnal yr apêl yn rhannol a chadarnhau'r dyfarniad o euogrwydd ond diwygio'r gosb i osod cosb lai neu fwy.

## ATODIAD 1:Sancsiynau a Awgrymir am Dorri Cod Ymddygiad i Grwpiau Myfyrwyr.

Gwnaiff panel disgyblu sy'n ystyried sancsiynau yn erbyn y rheiny sydd wedi torri'r Cod Ymddygiad ystyried y matrics isod.

### Matrics Penderfyniad Cod Ymddygiad i Grwpiau Myfyrwyr

| | | Risg o niwed i unigolion a/neu sefydliad | | |
|---|---|---|---|---|
| **Torri y Cod Ymddygiad i Grwpiau Myfyrwyr** | | **Rhywfaint yn Niweidiol**<br>Perygl anaf mân / perygl bach o golli enw da | **Difrifol**<br>Perygl ymyrraeth allanol (ee mynd i'r ysbyty neu eraill) / colli enw da Undeb Aberystwyth ar lefel leol. Gall ymddygiad ddangos diwylliant gwael. | **Difrifol Iawn**<br>Perygl niwed corfforol neu niwed meddyliol difrifol / colli enw da Undeb Aberystwyth ar lefel genedlaethol. Gall ymddygiad ddangos diwylliant tocsig. |
| | **Tor-reol Bach** | **1** | **2** | **3** |
| | **Tor-reol Cymedrol** | **2** | **4** | **6** |
| | Tor-reol Mawr. Torri Cyfraith Droseddol / Sifil posibl | **3** | **6** | **9** |

Gall unrhyw dorri o'r Cod Ymddygiad hwn arwain at un neu fwy o'r sancsiynau canlynol (er nad yw'n rhestr gynhwysfawr) a chaiff sancsiynau eu penderfynu fel y gwêl y panel disgyblu orau. Gellid hefyd gweld bod angen am sancsiynau unigol a grŵp mewn rhai achosion.

**Sancsiynau Grŵp:**

| | |
|---|---|
| **1** | .Rhybudd |
| | Llythyr ymddiheuro i'w ysgrifennu. |
| | Gofyn i'r pwyllgor a/neu aelodau ymgymryd â hyfforddiant. |
| **2** | Cosb ariannol |
| **3** | Diddymu un neu fwy o freintiau am lai na mis (gall gynnwys cyllid, archebu ystafelloedd, achrediadau, stondin yn Ffair y Glas, ac ti). |
| **4** | Diddymu (un neu fwy) o freintiau am 3–6 mis (gall gynnwys cyllid, archebu ystafelloedd, achrediadau, stondin yn Ffair y Glas, ac ati). |
| | Tynnu unrhyw grantiau a/neu y gallu i ymgeisio am grantiau yn y dyfodol yn ôl. |

| | |
|---|---|
| | Gofyn i gyflawni gwasanaethau di-dâl i'r Brifysgol neu'r Gymuned Leol. |
| 6 | Gofyn diswyddo / ailosod rhai neu holl aelodau'r pwyllgor. |
| | Diddymu (un neu fwy) o freintiau am flwyddyn (gall gynnwys cyllid yr Undeb/Brifysgol, archebu ystafelloedd, achrediad, stondin yn Ffair y Glas, ac ati). |
| | Cyfeirio at gamau disgyblu'r Brifysgol neu God Ymddygiad i Aelodau Undeb y Myfyrwyr. |
| | Gwaharddiad / diarddel grŵp myfyrwyr am flwyddyn academaidd. |
| 9 | Diarddel |
| | Gwahardd y grŵp myfyrwyr yn barhaol. |

Gall unrhyw un o'r cosbau uchod gael eu hatal am gyfnod penodol. Os, yn ystod y cyfnod hwnnw, y ceir y grŵp myfyrwyr yn euog o gamymddwyn pellach, neu yn methu â chydymffurfio â gofynion y gwelliannau, daw cosb y gwaharddiad i rym ar unwaith.

Gellir gweithredu sancsiynau / cosbau ar sail gronnol. Er enghraifft, os canfyddir bod grŵp myfyrwyr wedi torri'r Cod Ymddygiad ar lefel 6, yna gellid gweithredu pob (neu rai) o'r cosbau ar unrhyw lefel hyd at 6.